

Polisi cenedlaethol seilwaith ieithyddol y Gymraeg

**Ffurflen ymateb
i'r ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

e-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **6 Gorffennaf 2021** i:

Is-adran y Gymraeg
Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno gyda'r dull rydyn ni'n ei gynnig o ddatblygu polisi er mwyn cydlynu seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn well?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Cwestiwn 2 – Pa eiriaduron neu adnoddau geiriadurol ydych chi'n eu defnyddio i chwilio am air Cymraeg? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol.)

- Geiriadur Prifysgol Cymru ar-lein
- Ap Geiriadur Prifysgol Cymru
- Fersiwn print Geiriadur Prifysgol Cymru
- Geiriadur yr Academi ar-lein (Saesneg-Cymraeg)
- Fersiwn print Geiriadur yr Academi (Saesneg-Cymraeg)
- Geiriadur ar-lein Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Geiriadur Prifysgol Bangor ar-lein (Cymraeg-Saesneg)
- Ap Geiriaduron
- Cysgeir
- Y Gweiadur ar-lein
- Y Geiriadur Mawr (fersiwn print)
- Geiriadur Cymraeg Gomer (fersiwn print)
- Bing Translator
- Microsoft Translator
- Google Translate
- Arall (rhowch fanylion)

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 3 – Pa **gronfeydd termau** ydych chi'n eu defnyddio i chwilio am dermau Cymraeg? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol.)

- BydTermCymru
- Y Porth Termau Cenedlaethol
- Ap Geiriaduron

- ✓ Cysgeir
 - Geiriadur Termâu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol
 - Y Termiadur Addysg
 - ✓ Arall (rhowch fanylion)
- Cymdeithas Edward Llwydd – termau natur ac amgylcheddol

Sylwadau ategol

Mae ein tîm cyfieithu hefyd gyda rhestrau o dermau i'w wneud gyda byd natur, byddem yn hapus i rannu.

Mae hefyd rhestrau yn bodoli o waith ar dermau morol, ond nid ydynt wedi cael eu cyhoeddi na'u rhannu / cynnwys mewn Termiadur ar hyn o'r bryd, felly byddai'n dda gallu cynnig a rhannu rhestrau fel hyn i gael eu cynnwys a'u defnyddio gan eraill.

Cwestiwn 4a – Petaem yn creu gwefan i ddarparu gwahanol adnoddau ieithyddol mewn un man, ar wahân i'r hyn a nodir yn adran 5 y ddogfen ymgynghori, beth arall yr hoffech chi weld y wefan yn ei wneud?

Sylwadau ategol

Adnoddau/termau yn ymwneud a byd natur a'r amgylchedd, er mwyn hybu'r defnydd o'r iaith yn y maes yn Gymraeg a sicrhau bod y geiriau/ffurf cywir yn cael eu defnyddio i helpu sicrhau nad ydym yn colli'r Gymraeg yn y maes yma. Hefyd byddai hyn yn creu cysondeb ieithyddol o ran y geiriau a ddefnyddir yn y maes yma.

Mae Gwefan Byd Term Cymru wedi bod yn dda – syml a hawdd i'w ddefnyddio.

Cwestiwn 4b – Petaem yn creu gwefan i ddarparu gwahanol adnoddau ieithyddol mewn un man, dan ba amgylchiadau fyddech chi'n defnyddio'r wefan?

Sylwadau ategol

Maen swnio fel y byddai hi'n rhwyddach dod o hyd i dermau – byddai'n hwyluso'r gwaith, o chwilio mewn sawl adnodd ar lein a llyfrau.

Byddai'n adnodd dda i'n tîm cyfieithu, ac i'w rannu gyda cwmnïau cyfieithu sy'n gwneud gwaith ar ein rhan.

Byddai'n adnodd i lawer mwy na ond y tîm cyfieithu hefyd.

Cwestiwn 5a – Mae'r polisi drafft hwn yn nodi'r hyn rydyn ni'n ei gynnig i gydlynu holl elfennau seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn well. A fydd yr hyn rydyn ni'n ei gynnig yn caniatáu i ni wneud hyn?

Sylwadau ategol

Bydd, os bydd yn hawdd ei ddefnyddio, a bod digon o adnoddau yn cael eu rhoi i reoli a cadw'r wefan ar deunyddiau yn yr hir dymor.

Hyn yw, mae'n bwysig nad prosiect bydd hwn, ond adnodd gyda pobl bydd yn gallu ei wella, a'i ddatblygu dros amser gyda adborth defnyddwyr.

Cwestiwn 5b – Mae'r polisi drafft hwn yn nodi'r hyn rydyn ni'n ei gynnig i gydlynu holl elfennau seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn well. A oes unrhyw beth ar goll o'r polisi drafft?

Sylwadau ategol

Byddai'n dda gwneud yn siŵr bod gwaith i wneud yn siŵr bod gwaith sydd wedi cael ei wneud ar ran cyrff cyhoeddus ar gyfieithu, datblygu cof cyfieithu yn cael ei gynnwys.

Cwestiwn 5c – Mae'r polisi drafft hwn yn nodi'r hyn rydyn ni'n ei gynnig i gydlynu holl elfennau seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn well. A ddylen ni ddilyn trywydd gwahanol ar gyfer rhai o'r meysydd hyn?

Sylwadau ategol

Mae'r trywydd i weld yn un iawn. Ond i nodi dyle bod cyfle i addasu os oes adborth gan ddefnyddwyr yn parhau dros amser, gan wneud yn siŵr bod safonau ac egwyddorion creu gwasanaethau digidol yn cael eu defnyddio o'r dechrau.

Cwestiwn 6 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn y polisi drafft hwn am seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Bydd y cynigion yn y polisi yma yn cefnogi ac yn gwneud hi'n llawer rhwyddach i mwy o bobl i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'i bywydau. Drwy gael adnoddau ieithyddol mewn un man, bydd hyn yn annog mwy o bobl i ddefnyddio'r iaith.

Cwestiwn 7 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig:

- i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Byddai canllawiau a help ar gyfer gosod targedau corfforaethol i gyff anelu at gynydd mewn defnydd o wasanaethau Cymraeg hefyd yn helpu yn y maes yma.

Cwestiwn 8 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Bydd angen meddwl sut bydd y polisi a'r adnoddau newydd yn cael eu hyrwyddo a hybu yn eang, er mwyn sicrhau bod gan gynulleidfa ehangach na'r rhai bydd yn ei ddefnyddio'n ddyddiol fel rhan o'i gwaith yn ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael. Bydd hyn yn sicrhau bod bobl yn fwy tebygol o ddefnyddio'r iaith gan fod cefnogaeth mewn lle.

Bydd yn bwysig cynnwys cwmnïau sy'n cyfieithu ar ran y sector gyhoeddus yn rhannu eu cof maent wedi eu datblygu ar ran cyrff cyhoeddus.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrdd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

